PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 158 | Rhif 15 | Ebrill 10, 2025 | 50c.

## Derbyn 13 o aelodau

*Roedd Gwasanaeth nos Sul, 22 Rhagfyr yn destun llawenydd arbennig. Yn y gwasanaeth undebol i'r holl ofalaeth, derbyniwyd aelodau newydd i eglwysi'r ofalaeth a llawenydd arbennig oedd derbyn 13 o aelodau ifanc yn gyflawn aelodau yn Eglwys Gynulleidfaol Yr Hen Gapel a'i changhennau. Dyma adroddiad Gruffudd ab Owain.*

### Cael fy nerbyn yn aelod

Oedfa Sul y Pasg oedd hi pan ofynnais i'r gweinidog am ddosbarthiadau derbyn, a digwydd bod, roedd ffawd o 'mhlaid i, roedd cyfres ohonynt ar fin cychwyn. Mi gefais i fy medyddio yng Nghapel Tegid, Y Bala, ond roedd hi'n fwriad gen i gael fy nerbyn dan arweiniad Carwyn.

Ychydig wythnosau'n ddiweddarach, fe gychwynnon ni ar y dosbarthiadau ar nosweithiau Sul. Roeddwn i'n ymuno ar Zoom o dde Ffrainc am yr wythnosau cyntaf, a'r sesiynau dechreuol dan arweiniad y Parchedig Euron Hughes.

Ar ôl i mi ddychwelyd i Gymru ar gyfer yr haf, fe gafwyd sawl sesiwn hynod ddiddorol, gan drafod pynciau mawr fel heddychiaeth a maddeuant, a sesiwn ddifyr am wyddoniaeth a ffydd yng nghwmni'n gwestai Dr Hefin Jones ym mis Mehefin. Fe gafwyd, hyd yn oed, ambell sesiwn yng ngardd newydd yr Ysgoldy yn yr haul!

Wedi hynny, fe drefnwyd y byddai 13 ohonom ni'n cael ein derbyn yn y gwasanaeth llith a charol ar 22 Rhagfyr. Rhoddwyd rhan o'r gwasanaeth yn ein gofal ni, ac fe benderfynom y byddem yn seilio'n cyfraniad ar chwedl y pry copyn. Chwedl yw hon fod pry copyn wedi gorchuddio ceg yr ogof lle cuddiai Mair, Joseff, a'r newydd-anedig Iesu, i'w gwarchod nhw rhag lluoedd Herod. Cyflwynwyd drama fer yn portreadu'r stori gan Morgan, Wil, Twm, Elis, Owen, a Cynan. Yna, fe gyflwynwyd cyfres o fyfyrdodau byr gan Lowri, Martha, Casi, Cadi, Swyn, a Mari, gan gynnwys yr esboniad mai'r we pry cop yma sydd wrth wraidd ein defnydd o dinsel. Ar gynffon hynny, mi es innau at y piano i gyflwyno 'Nadolig Pwy a Ŵyr' o waith Ryan Davies, sy'n cychwyn â'r geiriau 'Tinsel ar y goeden ...'

Mae pob un ohonom yn ymaelodi yn yr Hen Gapel, neu yn un o'i ganghennau, ac fe gyflwynwyd Beibl yr un i ni fel arwydd o'r croeso i'r ofalaeth.

Mae'n diolch yn ddyledus i Carwyn am ei amser dros y misoedd diwethaf, ac i Alun Puw am ei gwmni a'i gyfraniad ym mhob un o'r sesiynau.




## Diwedd cyfnod i'n gweinidog, y Parchg J. Ron Williams



Wrth i 2024 ddirwyn i ben, cyhoeddodd y gweinidog mewn cyfarfod o dîm arweinyddol y Tabernacl a'r Capel Mawr ei fod wedi hysbysu aelodau capel Salem, Caernarfon, o'i fwriad i ymddeol adeg y Pasg 2025, a dod â'i weinidogaeth o 46 o flynyddoedd yno i ben.

Yr oedd hwn yn newyddion annisgwyl, ond cafwyd sicrwydd gan y gweinidog ei fod am barhau gyda'i weinidogaeth yn y Tabernacl.

Bydd hwn, felly, yn gyfnod newydd i'r gweinidog ac i ninnau, a chydgerddwn ymlaen yn hyderus dan law Duw, gan geisio ei fendith ym mhob dim.

Dymunwn yn dda i'r gweinidog yn ei ymddeoliad rhannol, gan ddymuno bendith Duw yn helaeth arno yntau.

(o'r *Llais*, cylchgrawn Capel y Tabernacl a'r Capel Mawr, Porthaethwy, rhifyn Mawrth 2025)



# Rhagor o Gyngor y Gwanwyn: Adran Cenhadaeth a'r Eglwys Fyd-eang

Cafwyd cyfarfod bywiog o dan arweiniad y cadeirydd newydd, y Parchg Owain Davies. Wrth edrych yn ôl dros y cyfarfod daeth yn amlwg mai'r thema a redodd drwy'r trafodaethau i gyd oedd perthynas.

### CWM

Amlygwyd hynny yn yr adroddiadau a gafwyd gan ein cynrychiolwyr yng nghynadleddau CWM. Gwelodd Geraint Rees, ein trysorydd, mewn cynhadledd yn ymwneud yn benodol â materion cyllidol awydd mawr CWM i gyfrannu tipyn mwy na nawdd ariannol i'w aelodau. Gwelodd wir awydd aelodau'r teulu i ddod i berthynas fywiol â'i gilydd allasai hyrwyddo cydweithio a phartneriaethau buddiol. Hyn fu profiad Owain, Elinor a Dyfrig hefyd yng nghyfarfod fforwm CWM Ewrop. Braint arbennig fu cyfarfod Yasmine Rishmawi, Palestiniad o Fethlehem yno a chlywed ei chri am heddwch a chyfiawnder. Derbyniodd hithau'n gwahoddiad i ymweld â ni adeg y



Cyfarfodydd Blynyddol ac edrychwn ymlaen yn eiddgar at gael ei chwmni.

### Prosiect Denman

Ymddangosodd manylion y prosiect yn *Y Tyst* ac ar y cyfryngau cymdeithasol eisoes. Y thema eleni yw, 'Ein hysgol Sul: Gwasanaethu Iesu'.

### Materion hanes

Nodwyd mai'r Dr Aled Eirug fydd yn traddodi darlith y gymdeithas hanes eleni yn Nant Gwrtheyrn ar Apêl Heddwch yr Eglwysi 1925.

### Christian Rebuild

Tynnodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol sylw at yr elusen hon y mae sy'n gweithio ymhlith eglwysi yn Nwyrain Ewrop a'r Dwyrain Canol yn arbennig. Y mae Dr Dai Lloyd, Abertawe ymhlith ei hymddiriedolwyr, sydd gan fwyaf yn perthyn i'r Congregational Federation. Addawyd rhoi mwy o sylw i'r elusen yn y Cyfarfodydd Blynyddol.

### Cenhadaeth: ein cyfle

Cafwyd trafod brwd ar y mater gan weld yr angen i'r eglwysi ymgysylltu â'u cymunedau a dod i berthynas â phobl sydd tu allan i gylch eu gweithgaredd yn arferol a meddwl hefyd am bartneriaethu gyda mudiadau sy'n gweithio eisoes yn y gymuned ac er ei lles. Gan gymaint egni'r drafodaeth penderfynwyd galw cyfarfod rhithiol buan i geisio daearu'r trafodaethau mewn modd fydd yn ysgogi'n heglwysi i weld eu cyfle cenhadol.

**Dyfrig Rees**

# YR OEDI CYN CYNNAL ANGLADDAU

## Bwrdd Iechyd yn cydnabod pryder cyfundeb

*Mae'r oedi hir rhwng marwolaeth a rhyddhau'r corff ar gyfer claddu neu amlosgi yn achosi loes ychwanegol i deuluoedd a rhwystr i weinidogion a threfnwyr angladdau. Deddf gymharol newydd sy'n gyfrifol am hyn. Rhaid i swyddog meddygol annibynnol graffu ar y 'rheswm marwolaeth' gan feddyg teulu cyn darparu Tystysgrif Feddygol Achos Marwolaeth (MCCD) sy'n rhoi caniatâd i ryddhau'r corff. Fe all y broses gymryd hyd at dair wythnos neu fwy.*



*Y Parchg Gareth Ioan yn cadeirio dros dro a'r ysgrifennydd Elinor Jameson yng nghwrdd chwarter Elim*

Fe wnaeth Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin ysgrifennu at Fwrdd Iechyd Hywel Dda yn gofyn am adolygiad er mwyn cyflymu'r broses. Anfonwyd y llythyr gan Elinor Jameson, ysgrifennydd y cyfundeb:

'Ers y newidiadau diweddar yn y broses o gadarnhau marwolaethau, gydag archwilwyr meddygol yn cael mwy o ran yn y broses, mae wedi dod yn gynyddol amlwg i weinidogion, trefnwyr angladdau a theuluoedd galarus bod y cyfnod rhwng y farwolaeth a derbyn y caniatâd swyddogol i ryddhau'r corff i'w gladdu neu i'w amlosgi wedi ymestyn yn arwyddocaol. Nid yw hi'n anghyffredin bellach i orfod aros pythefnos, tair wythnos neu gyfnod hwy o amser cyn medru cynnal angladdau.'

### Gofid a phryder diangen

'Mae hyn yn hynod siomedig ac yn gwbl annerbyniol. Mae'r oedi'n peri gofid a phryder diangen i deuluoedd galarus a thrafferthion trefniadol i'r rhai sy'n ceisio hwyluso angladdau a chladdedigaethau ar eu rhan.

'Deallwn fod y system yn newydd a bod yna resymau dilys dros y newidiadau diweddar. Deallwn hefyd bod angen i systemau newydd gael amser i setlo ac i staff gael amser digonol i ganfod patrymau effeithiol ac effeithlon o weithredu'r trefniadau newydd. Er hynny, nid yw'r pryderon a'r gofidiau sy'n cael eu codi yn ddim llai. Gofynnwn yn garedig i chi, felly, i awdurdodi adolygiad o'r trefniadau presennol gyda golwg ar gyflymu'r broses, a hynny er lles i'r unigolion a theuluoedd hynny sydd mewn dirfawr angen pob trugaredd yn eu galar.'

### Ymateb y Bwrdd Iechyd

Fe glywodd cwrdd chwarter y cyfundeb yn Elim, Ffynnon-drain ymateb gan yr Athro Phil Kloer, prif weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Roedd yn cydnabod bod y broses yn achosi oedi wrth ryddhau'r ymadawedig i deuluoedd a bod y Bwrdd Iechyd yn cymryd y mater o ddifri.

Meddai'r Athro Kloer yn ei lythyr, 'Mae hwn yn fater cenedlaethol ac yn destun ymchwil ar hyn o bryd gan grŵp strategol o dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol. Rydym yn cymryd rhan lawn yn y gwaith hwn. Er ein bod wedi gweithio'n rhagweithiol i leihau oedi, addysgu a hysbysu rhanddeiliaid, rydym hefyd yn cydnabod bod rhywfaint o oedi yn y system. Rydym yn

*parhad ar y dudalen gefn*

Yr Adran Gydenwadol

EBRILL 10 2025 RHIF 215

# O Garreg Boeth i Borth yr Aur


'Pen-blwydd? Pwy'n "ben" eleni?
Pwy'n llanc? Pwy'n ieuanc fel ni?'

Dyna rai o'r cwestiynau a ofynnodd Dr Gwyn Lewis i'r gynulleidfa niferus – o bell ac agos – a ddaeth ynghyd yn Theatr Seilo, Caernarfon, nos Lun, 17 Mawrth, i ddathlu a gwerthfawrogi cyfraniad cwbl nodedig y Parch. Harri Parri i fyd crefydd, diwylliant, a llenyddiaeth yng Nghymru ers canol y ganrif ddiwethaf. Ac yntau'n dathlu pen-blwydd arbennig iawn yn ddiweddarach eleni, roedd y Theatr yn rhwydd lawn i dalu gwrogaeth iddo a mwynhau awr o bortread o'i fywyd a'i waith dan arweiniad Gwyn, gyda darlleniadau o rai o'i storïau enwocaf gan John Ogwen.

Yn dilyn gair o groeso a chyflwyniad gan Lywydd y noson, Richard Parry Jones, aeth Gwyn yn ei flaen i olrhain y prif gerrig milltir yn hanes Harri Parri fel Gweinidog uchel iawn ei barch a'i ddylanwad mewn tair ardal wahanol. Fe'i hystyrid yn Weinidog gwahanol ac arloesol a lwyddodd i gyflwyno neges a her yr efengyl mewn ffyrdd cyfoes a pherthnasol yn yr ardaloedd hynny gyda'i 'weinidogaeth lydan' (chwedl y Parch. Pryderi Llwyd Jones). Yn dilyn agor ei gŵys gyntaf yn ardal Uwchaled ar gychwyn y 1960au, symudodd i Ddyffryn Madog yn 1964 (a ystyrid ganddo yn 'flynyddoedd y mentro ac arbrofi') cyn ymgartrefu yng Nghaernarfon yn 1976 fel Gweinidog cyntaf y Seilo 'newydd' – gyda thre'r Cofis yn 'caniatáu iddo fod yn fo ei hun'! Ac roedd cael theatr fodern ynghlwm wrth y capel yn cynnig her a chyfle rhy dda i'w colli – ac fe droes yntau ei law at lunio sgriptiau a fyddai'n gwneud defnydd llawn o adnoddau'r theatr a mynd yn ei flaen i lwyfannu pasiantau blynyddol i ddiddanu a dwysbigo'i gynulleidfa am 32 mlynedd gyda chynyrchiadau cyfoethog Cymdeithas y Gronyn Gwenith.



Bu Harri Parri yn awdur hynod doreithiog ar hyd y blynyddoedd – byth ers dyddiau sefydlu Gwasg Tŷ ar y Graig gyda'i gyfaill mawr, y diweddar Barch. Gareth Maelor, yn 1969 – a chyhoeddodd nifer o bortreadau o unigolion hanesyddol, dwy nofel, ac amrywiol gyfrolau eraill yn ystod ei yrfa. Ond fel crëwr y gweinidog diffuant a diniwed, y Parch. Eilir Thomas – gyda'i braidd amryliw yng Ngharreg Boeth a Phorth yr Aur – y gwnaeth ei gyfraniad mwyaf i lenyddiaeth Gymraeg, gan haeddu gael ei alw yn 'feistr y stori fer ffraeth' yng Nghymru ar bwys y ffaith iddo bortreadau cymanfa o gymeriadau dychmygol a sefyllfaoedd gwirioneddol ddigri yn grefftus a llawn argyhoeddiad am dros 50 mlynedd. Pwy fyth all anghofio cymeriadau fel Dafydd ac Ann Robaitsh Heidden Sur, Ifans y Coparét, Shamus Mulligan a'r Mulliganiaid, Jac Black, William Howarth, Cecil Siswrn a Dwynen Lightfoot (ac enwi dim ond dyrnaid)? Maen nhw i gyd yn rhan o'n chwedloniaeth ni fel Cymry erbyn hyn – oherwydd i Harri Parri gonsurio sefyllfaoedd mor wirioneddol ffraeth ar eu cyfer gyda'i ddyfeisgarwch dychmygus a'i fedr athrylithgar i drin geiriau.




Yn ystod y noson, cafwyd enghreifftiau godidog o rai o'r sefyllfaoedd hyn wrth i John Ogwen chwythu anadl einioes i rai o'r cymeriadau yn ei ffordd grefftus ddihafal ei hun. Roedd y gynulleidfa yn ei dyblau â bonllefau o chwerthin yn atsain drwy'r theatr – yn union fel y byddai hi yn y Babell Lên yn sesiynau llwyddiannus 'Stori Awr Ginio' yr Eisteddfod Genedlaethol rhwng 1997 a 2009.

Daeth y noson i ben gyda'r gynulleidfa ar ei thraed i anrhydeddu Harri Parri – a diolchodd y Llywydd i Gwyn am drefnu a llywio noson gwbl arbennig a oedd yn deyrnged wirioneddol haeddiannol i ŵr a wnaeth gymaint o gyfraniad yn lleol ac yn genedlaethol. Ac ar gais Harri Parri ei hun, ni chodwyd unrhyw dâl mynediad – dim ond gwahodd pawb i gyfrannu tuag at waith Uned Gofal Coronari Ysbyty Gwynedd i gydnabod y gofal arbennig a gafodd ef yno y llynedd. Prawf o'r parch sydd gan bawb at Harri yw i'r noson wneud elw o dros £1,200 a diolchir i bawb am y fath haelioni.

Pen-blwydd hapus iawn, Harri, pan fyddwch yn dathlu yn ddiweddarach eleni!

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 13 Ebrill am 7:30yh – Sul y Blodau**

Bydd Lowri Morgan yn sir Drefaldwyn i ddathlu Sul y Blodau a dysgu mwy am draddodiadau Cymreig yr ŵyl. A chawn ymweld â chapel coffa'r emynyddes Ann Griffiths yn Nolanog. Daw'r emynau o Gapel y Tabernacl, Llanfyllin, a chawn berfformiad disglair gan yr unawdydd Siwan Henderson.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 13 Ebrill, am 7:30yb a 4:30yp**

Amrywiaeth o emynau ar Sul y Blodau yng nghwmni Delyth Wyn Davies, Chwilog

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 13 Ebrill, am 12:00yp**

Oedfa Sul y Blodau dan ofal Ann Davies, AS, Llanddarog

# Bwletin Polisi Cytûn, Ebrill–Mai 2025

Rydym yn falch o gael tynnu sylw eto at gyhoeddiad deufisol Cytûn, sy'n siarad ac yn gweithredu ar ein rhan fel enwadau ynghyd yng Nghymru. Cafodd nifer o'r materion sylw eisoes gennym yn *Cenn@d* yn ddiweddar, a dyma restr o'r hyn a geir ynddo i'n hysgogi a'n hysbysu fel eglwysi o ddilyn y ddolen i'r cyhoeddiad llawn: Bwletin Polisi Ebrill-Mai 2025

Dymunwn yn dda i Iestyn Davies yn ei rôl newydd fel Swyddog Polisi Cytûn i olynu Gethin Rhys.

**Y Dyniaethau yng Nghymru**
Yn dilyn cyhoeddiadau am newidiadau sylfaenol i ddysgu'r Dyniaethau a dileu hynny'n gyfangwbl mewn llawer o bynciau ym Mhrifysgol Caerdydd a Phrifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant yn Llanbedr PS, mae llythyr Cytûn ar y mater wedi denu sylw gan y cyfryngau yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig. Bydd Cytûn yn parhau i geisio eglurder ar rai materion penodol, yn enwedig am ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, a dyfodol y llyfrgelloedd ac adnoddau eang sydd wedi eu casglu yn y prifysgolion. Bydd hefyd yn gweithio gyda'i aelod eglwysi a mudiadau i agor trafodaeth ehangach am addysgu yn y Dyniaethau ar bob lefel addysgol yng Nghymru.

Dyna hefyd oedd testun y Grŵp Trawsbleidiol ar Ffydd yn Senedd Cymru mewn cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Ebrill.

**Yr amgylchedd**
Ceir sylw i arolwg newydd gan y mudiad Eco Church sy'n cynnig mwy o hyblygrwydd, gan sicrhau bod pob eglwys, waeth beth fo'i maint, ei lleoliad neu ei hadnoddau, yn gallu gweithredu a chael gwir effaith: https://ecochurch.arocha.org.uk/. Cawn glywed sut mae eglwysi'n tynnu cymunedau ynghyd drwy eu gwaith amgylcheddol yn aml, wrth i Bwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol Senedd Cymru gynnal ymchwiliad i Gydlyniant Cymdeithasol yng Nghymru.

Bydd 'Wythnos Caru eich Mynwent', wythnos i ddathlu bywyd gwyllt, yn cael ei chynnal ar 7–15 Mehefin eleni. Mae Eglwysi'n Cyfrif Natur yn canolbwyntio ar y bywyd gwyllt gwych sydd i'w gael mewn mynwentydd.

**Eglwysi'n gwrthwynebu torri Cymorth Tramor**
Siom i Cytûn a'i aelod eglwysi oedd cyhoeddiad disymwth Llywodraeth y Deyrnas Unedig ei bod am dorri ar wariant ar gymorth i wledydd tlotaf y byd o 0.5% i 0.3% o gynnyrch y wlad – colled o ryw £5.5bn y flwyddyn i'r gwledydd hynny. Bydd yr arian a arbedir yn cael ei ddargyfeirio'n wariant ar amddiffyn. Mae Cymorth Cristnogol wedi lansio ymgyrch o'r enw Restore, gyda deiseb y gellir ei harwyddo i bwyso ar y Llywodraeth i adfer y gyllideb ar unwaith. Yn rhifyn 13 Mawrth o'r Tyst, wythnosolyn Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, ceir patrwm o lythyr y gall eglwysi lleol ei anfon at eu Haelod Seneddol yn San Steffan am y mater.

**Cyfiawnder Cymdeithasol**
Rhoddwyd sylw eisoes i alwad Housing Justice Cymru a Sefydliad Bevan i greu cartrefi ar dir eglwysig segur.

justmoney movement

Mae rhaglen ddogfen ddiweddar ar Channel 4 (10 Mawrth), wedi ei lleoli yng Nghymru, sef *Michael Sheen's Secret Million Pound Giveaway*, wedi tynnu sylw at effaith credyd anfforddiadwy a dyledion ar unigolion, teuluoedd a chymunedau. I ddarllen mwy a gweld sut y gallwch chi weithredu i alw am Ddeddf Bancio Teg, ewch i'r wefan: https://justmoney.org.uk/blog/lets-make-banking-fair

**Cristnogion dan warchae**
Cofiwch fod *Rhestr Gwylio'r Byd 2025* gan yr elusen Gristnogol Open Doors ar gael i'w harchebu, yn rhad ac am ddim yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gallwch archebu hyd at 30 o gopïau yn Gymraeg yma, neu yn Saesneg yma. Am fwy na 30 copi, ffoniwch Open Doors ar 01993 460 015 neu e-bostiwch Jim Stewart: jims@opendoorsuk.org

# Gŵyl Llanw 2025

Cynhelir yr ŵyl Gristnogol hon yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog, 21–5 Ebrill. Eleni, y thema fydd 'Dathlu Iesu, ein Proffwyd, Offeiriad a Brenin'. Bydd y Parch. Jonathan Thomas yn arwain tri sesiwn yn y bore yn edrych ar y tair agwedd yma o berson Iesu.

Hefyd, bydd Rachel Radbourne a Joseff Edwards yn arwain yr oedfaon nos Fawrth a nos Iau, gydag oedfa wedi ei threfnu'n arbennig ar gyfer yr ardal leol ar y nos Fercher.

Bydd darpariaeth lawn ar gyfer plant ac ieuenctid gydol yr ŵyl, fel arfer. Am ragor o fanylion ac i archebu tocynnau, ewch i'r wefan: Llanw 25 | Llanw

Bydd croeso i bawb yno ar y diwrnod i fynychu'r oedfaon a'r seminarau, ond os ydych yn dymuno ymuno yn y prydau bwyd, bydd angen prynu tocyn dydd ymlaen llaw.



# Undod Cristnogol mewn Byd sy’n Chwalu

WYTHNOS 6

## Eglwysi ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon – myfyrdodau ar gyfer y Grawys

**Cerdded gyda’n gilydd mewn gobaith**

**Darlleniad**
*Eseia 40:31*

**Myfyrdod**
Weithiau gall y rheini ohonom sydd â chysylltiadau eciwmenaidd ystyrlon eu cymryd yn ganiataol, heb sylweddoli bod rhaniadau ymhlith Cristnogion yn dal i fod yn allweddol yn y ffordd y mae’r gymdeithas yn ehangach yn gweld yr Eglwys. Gwelwyd y gall Cristnogion o wahanol enwadau sy’n dod at ei gilydd pan fydd y gymdeithas yn gyffredinol yn dioddef, fel a ddigwyddodd yn ystod pandemig COVID-19, helpu i gyfleu neges o obaith oherwydd bod yr undod gweladwy hwnnw’n dal sylw pobl.

Nid yw’r neges o obaith yr ydym yn ceisio’i chyfleu yn seiliedig ar optimistiaeth arwynebol sy’n anwybyddu neu’n ceisio lliwio’r heriau dwys sy’n wynebu ein cymunedau lleol ar hyn o bryd, ac nid yw chwaith yn ceisio tawelu neu atal lleisiau’r rhai sy’n dioddef. Yn hytrach, mae’n obaith sy’n seiliedig ar ffydd, ffydd yng nghariad trugarog Duw ac ym mhotensial y bobl a greodd Duw.

Mae’r cyd-destun yr ydym yn ceisio arwain ynddo yn un sy’n aml yn cael ei reoli gan ofn lle mae pobl yn colli gobaith y bydd y dyfodol yn well, iddyn nhw ac i genedlaethau iau. Mae’r ofn a’r colli gobaith hwn yn aml yn cael ei waethygu neu ei ecsbloetio gan rai mewn swyddi dylanwadol er budd gwleidyddol neu bersonol. Gall y realiti dynol iawn fod arwyddion o ddirywiad, fel llai o bobl yn mynychu’r eglwysi neu absenoldeb pobl ifanc ynddynt, effeithio ar ymateb yr Eglwys, gan beri i bobl bryderu am ddyfodol llawer o gymunedau eglwysig.

Yn ein cyfarfyddiadau eciwmenaidd, rydym yn cael ein cefnogi a’n herio i barhau i fod â gobaith er gwaethaf ein siomedigaethau. Mewn sawl man, adeiladu perthynas a chysylltiadau rhwng eglwysi lleol sydd wedi ei gwneud yn bosibl iddynt barhau i wasanaethu cymunedau er gwaethaf niferoedd sy’n lleihau neu adnoddau prin. Ac mae’r dod ynghyd yma wedi arwain at drawsnewid perthynas a bod yn agored i brofiadau newydd.

Gall ein profiad o droi straeon am ddirywiad a cholli cysylltiad yn straeon am ailadeiladu a sefydu perthynas newydd gynnig gobaith i gymunedau sy’n ei chael hi’n anodd heddiw. Mewn llawer o achosion, roedd y profiad o adnewyddu ac ailadeiladu yn golygu meddwl am y gymuned mewn ffordd wahanol, gan groesawu grŵp ehangach ac amrywiol o bobl yn aml i brofiad o obaith wedi’i ysbrydoli gan ffydd.

**Cwestiynau ar gyfer myfyrio a thrafod**

- Meddyliwch am y rhai wnaeth ymgynnull ar gyfer Cyngor Nicea. Beth ydych chi’n ei feddwl oedd eu gobeithion am yr hyn y gallent ei gyflawni drwy’r Cyngor?
- Sut mae hyn yn cymharu â’r gobeithion y byddwch yn dod ar eu traws mewn cyfarfodydd eciwmenaidd heddiw?
- Sut mae hyn yn cymharu â’r gobeithion a fynegwyd mewn mannau eraill ar gyfer deialog am ddyfodol y gymuned leol neu’r gymdeithas ehangach?




**Gweithredu**

- Gwnewch restr o enghreifftiau o drawsnewid sy’n rhoi gobaith i chi. Gallai hyn gynnwys yr hyn sy’n cael ei gyflawni yn y byd addysg, iechyd y cyhoedd, trawsnewidiadau mewn agweddau neu newidiadau i gyfeiriad polisi gwleidyddol. Beth allwn ni ei ddysgu o’r llwyddiannau hyn?
- Disgrifiwch ddigwyddiad neu gynulliad oedd yn llawn gobaith, yn eich barn chi. Nodwch y ffactorau a gyfrannodd at y profiad cadarnhaol hwn. Sut y gellid efelychu hyn yng ngwaith yr eglwys yn eich cyd-destun lleol?
- Nodwch ffyrdd ymarferol y gallech gyfleu neges o obaith yng nghyd-destun eich eglwys leol, fel thema reolaidd a chyson, yn ddelfrydol mewn ffyrdd sy’n weladwy i’r gymuned o’i chwmpas.

**Gweddi**
Arglwydd,
adnewydda ein gobaith
drwy ffydd ynot Ti
ac yn ein gilydd.
Helpa ni i estyn allan
i’r rhai sy’n cael anhawster
i ddal ati i obeithio ar hyn o bryd,
nid drwy gynnig atebion hawdd,
ond gyda pharodrwydd i wrando
a bod yn bresennol
ac i deithio gyda hwy,
a rhannu’r gobaith sy’n llifo o’n ffydd.
Amen.




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# Cwrdd Chwarter Cyfundeb Môn, 5 Chwefror

Cynhaliwyd Cwrdd Chwarter Cyfundeb Eglwysi Annibynnol Môn, y cyntaf eleni, yng Nghapel Ifan, Llannerch-y-medd. Y Parchg Geraint Tudur oedd yn cadeirio.

Yn dilyn croesawu'r cynrychiolwyr oedd wedi dod, a diolch am gael cynnal y cyfarfod yng Nghapel Ifan, cafwyd defosiwn dan arweiniad Donald Glyn Pritchard. Darllenodd o Ioan 15 ac offrymu gweddi. Cydadroddwyd Gweddi'r Arglwydd wedi hynny.



### Teyrnged

Cyn mynd ymlaen at waith y noson, cyflwynodd y cadeirydd deyrnged i'r diweddar Barchedig Irfon Iorwerth Jones a fu farw yn ystod Tachwedd 2024. Fel rhan o'r amlinelliad o'i yrfa a'i gyfraniad, soniwyd am ei weinidogaeth ran amser yn Ebeneser, Rhosmeirch, a Sardis, Bodffordd, ac am ei bwyslais ar fabwysiadu 'meddwl Crist' yn ein byw o ddydd i ddydd. Wedi'r deyrnged, cododd y gynulleidfa ar ei thraed i fynegi ei chydymdeimlad â theulu Irfon yn eu galar.



*Y cadeirydd a'r ysgrifennydd newydd, Irfon Morris o Lanfairpwll*

### Cofnodion a neilltuo

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gafwyd yn Ebeneser, Llanfairpwll, ar 6 Tachwedd 2024 a derbyniwyd hwy fel rhai cywir. Nid oedd dim yn codi o'r cofnodion hynny.

Wrth alw'r ysgrifennydd newydd, Irfon Morris, at ei waith estynnodd y cadeirydd groeso cynnes iddo a diolch iddo am ei barodrwydd i ymgymryd â'r swydd. Cyflwynodd yntau ei adroddiad cyntaf, a chyfeirio at amrywiol ddatblygiadau diweddar ymhlith eglwysi'r cyfundeb. Darllenodd hefyd lythyr o ddiolch a ddaeth oddi wrth gyfeillion Berea, Pentreberw, yn dilyn derbyn nawdd ariannol gan y cyfundeb. Soniodd wedi hynny am gyrsiau hyfforddiant sydd i'w cynnal gan y Parchg Carwyn Siddall ar Zoom ym misoedd Chwefror a Mawrth, a dosbarthwyd posteri i'w harddangos yn y capeli. Soniodd yn olaf am sesiwn 'EcoChurch' sydd i'w chynnal yng nghapel Emaus, Bangor, ar nos Lun, 10 Chwefror. Bydd y cyfarfod hwnnw'n rhoi cyfle i bobl sgwrsio a dysgu mwy am sut y gall eglwysi ofalu'n well am y greadigaeth.



*Bryn Mortimer-Roberts*

### Ariannol

Wedi'r ysgrifennydd, daeth y trysorydd, Bryn Mortimer-Roberts, ymlaen i roi amlinelliad o sefyllfa'r cyfrifon. Bu cryn wario yn ystod y tri mis diwethaf, ond yr oedd y cyfan er budd eglwysi'r cyfundeb. 'Y mae eto adnoddau ar gael ac wrth gefn,' meddai, ac wedi iddo gyflwyno'i adroddiad, ychwanegodd y cadeirydd mai da oedd gweld arian y gorffennol yn cael ei ddefnyddio i hyrwyddo gwaith eglwysi heddiw, a diolchodd i'r ysgrifennydd a'r trysorydd am eu gwaith ardderchog.

### Enwebu

Gan fod dau etholiad i'w cynnal gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn ystod y misoedd nesaf, gofynnwyd am enwebiadau ar gyfer darpar-lywyddiaeth yr Undeb a swydd yr Ysgrifennydd Cyffredinol. Penderfynwyd cyflwyno enwau y Parchg Gwyn Elfyn Jones fel darpar Lywydd, ac Elinor Wyn Reynolds fel darpar Ysgrifennydd Cyffredinol.



*Parchg Carwyn Siddall*

### Digwyddiadau

Cadarnhawyd fod Sul y Cyfundeb i'w gynnal yn Ebeneser, Rhosmeirch, ar 4 Mai ac mai'r Parchg Geraint Tudur fydd y siaradwr gwadd.

Cyhoeddwyd wedyn y bydd y cwrdd chwarter nesaf yn cael ei gynnal yn Berea, Pentreberw, am 6.30pm ar ddydd Mercher, 7 Mai, ac mai'r Parchg Carwyn Siddall, fydd y siaradwr gwadd.

Nid oedd unrhyw fater arall i'w drafod, felly daeth y cyfarfod i ben am 7.30 gyda'r cadeirydd yn offrymu gweddi dros y claf a'r galarus cyn cyhoeddi'r fendith.

**Geraint Tudur, Ysgrifennydd**

## Y PRIORDY, CAERFYRDDIN

**Ysgrifennydd Cyffredinol Newydd**

Catrin Heledd Jones
Hengil Fach,
Peniel,
Caerfyrddin SA32 7AG

**Ffôn:** 07791 917713
**E-bost:** joneshengilfach@gmail.com

**Ysgrifennydd y Cyhoeddiadau Newydd**

Carys Morgans,
Awel Tywi,
Heol Llangynnwr,
Caerfyrddin SA31 2PB

**Ffôn:** 07812 116485
**E-bost:** post@carysmorgans.cymru

# Golygyddol

### Rwy'n wan

Hyfryd oedd cael bod yng Nghyngor y gwanwyn, Undeb yr Annibynwyr yn Aberystwyth yn ddiweddar a chyfarfod cymaint o gynrychiolwyr o'r cyfundebau ar hyd a lled Cymru a thu hwnt. Y Cyngor mewn gwirionedd yw pwyllgor gwaith yr Undeb lle y cawn gyfle i drafod materion byd-eang a lleol. Mae pob sefydliad angen ffwrnais syniadau lle y gwyntyllir materion sy'n bwysig i waith Teyrnas Dduw ac i fywyd yr eglwysi Annibynnol. Yn ogystal mae'r Cyngor yn gyfle pwysig i ystyried syniadau a datblygiadau newydd a allent hyrwyddo gwaith y Deyrnas i'r dyfodol a rhannu'r newyddion da am Iesu. Nid yw'r eglwys Gristnogol yn gorff sydd i aros yn ei unfan yn ddigyfnewid ond yn hytrach yn gorff sy'n cael ei ddiwygio yn barhaus trwy'r gair a'r Ysbryd. Mae eglwys bob amser yn 'Ysblygu' (plygu i'r Ysbryd). Os ydyw'n aros yn ei hunfan mae'n delwi. 'Ecclesia semper reformanda.'

### Ysbryd newydd

Un peth sylwais yn arbennig yn y Cyngor hwn oedd yr ysbryd cenhadol sy'n cyniwair yn ein plith. Roedd hyn mor galonogol. Ynghanol y chwalfa ysbrydol bresennol mae'r Arglwydd yn ein galw ni i'w waith, i adeiladu ac i fod yn enillgar. Fel Cristnogion Cymraeg rydym bellach yn sylweddoli'n iawn argyfwng ein sefyllfa ysbrydol bresennol. Efallai y buom am gyfnod wedi gobeithio a thybio, i raddau, y byddai newid er gwell yn digwydd trwy y gweithgareddau a'r strwythurau oedd gennym eisoes. Ond nid felly y bu ac nid felly y bydd. Bellach rydym yn wynebu'r realaeth gyda'n traed ar y ddaear. Gwyddom y bydd llawer o eglwysi yn dirwyn i ben yn ystod y 10 mlynedd nesaf. Y mae cyfnod eu defnyddioldeb wedi darfod, cymdeithas wedi newid, ac wrth ddweud hynny diolchwn am waith yr aelodau fu'n ddiwyd a thriw ynddynt dros y blynyddoedd.

### Cryfder mewn gwendid

Bellach, sylweddolwn fod rhaid symud ymlaen mewn ffydd i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Rydym yn wan, rydym yn fusgrell, rydym yn aneffeithiol. Mae'r Arglwydd yn ein tocio. Er hynny pobl Iesu ydym ac fe glywn Ei lais yn ein galw i ddyfalbarhau. Credaf fod yr a ysgrifennodd Paul at yr eglwys yng Nghorinth yn arwyddocaol, sef:

'Ond dywedodd wrthyf, "Digon i ti fy ngras i; mewn gwendid y daw fy nerth i'w anterth." Felly, yn llawen iawn fe ymffrostiaf fwyfwy yn fy ngwendidau, er mwyn i nerth Crist orffwys arnaf. Am hynny, yr wyf yn ymhyfrydu, er mwyn Crist, mewn gwendid, sarhad, gofid, erledigaeth, a chyfyngder. Oherwydd pan wyf wan, yna rwyf gryf.' (2Co. 12:9–10)

Pan sylweddolwn ein gwendid fel pobl Iesu a gweld ein bod yn ddi-rym wrth wynebu pwerau'r byd hwn, yna, sylweddolwn mai ffynhonnell ein holl nerth yw yr Arglwydd. Hynny yw, os ydym yn ceisio gwneud gwaith Duw yn ein nerth ein hunain, yn ein gallu ein hunain, ni ddaw llwyddiant. Ond pan gydnabyddwn ein bod yn llwyr ddibynnol arno Ef fe ddaw eneiniad a bendith. Pan rydym yn wan, rydym yn gryf.

Gweddïwn y bydd yr ysbryd cenhadol ac enillgar yn cynyddu yn ein plith fel ein bod yn y blynyddoedd nesaf yn agored i waith yr Ysbryd Glân ac yn gosod pethau yn eu lle i ennill pobl newydd i ffydd, i adeiladu eglwys Dduw ac i greu dynoliaeth newydd.

**Alun Tudur**

## Rhaglen y Cyfarfodydd Blynyddol Cyfundeb Llŷn ac Eifionydd 2025

Cynhelir y cyfarfodydd yn Nant Gwrtheyrn, Llithfaen.

### DYDD MERCHER 25 Mehefin 2025

**1.30 CYNHADLEDD 1 ***
Etholiadau
Croesawu darpar Lywydd yr Undeb
Croesawu Ysgrifennydd Cyffredinol newydd yr Undeb

**3.30** Adroddiad y Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau
Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol

**4.30** Cyflwyniad eglwysi

**7.30** Noson yng ngofal eglwysi lleol yng nghapel Nant Gwrtheyrn

### DYDD IAU, 26 Mehefin 2025

**9.30 CYNHADLEDD 2**
Adroddiadau

**11.30 CYNHADLEDD 3**
Penderfyniadau

**2.00 Cyfarfod Hanes ***
Dr Aled Eurig: Apêl Heddwch yr Eglwysi 1925

**4.00 Cyfarfod Heddwch ***
Yasmine Rishmawi, o Fethlehem

**7.30 OEDFA O FAWL** yng nghapel Nant Gwrtheyrn *
Pregethu: Parchg Tom Evans

### DYDD GWENER, 27 Mehefin 2025

**9.30** Defosiwn yng ngofal Cyfundeb Llŷn ac Eifionydd

**9.45** Gweithdy

**11.15** Gweithdy a thrafodaeth (parhad)

**12.00 CYNHADLEDD 4 ***
Trosglwyddo'r llywyddiaeth i'r Parchg Owain Llŷr Evans

**Eglwysi yr Annibynwyr: Seion, Aberystwyth a Bethel, Tal-y-bont**
***ac* Eglwysi y Bedyddwyr: Bethel, Aberystwyth a Horeb, Penrhyn-coch**

**GOFALAETH NEWYDD • CYFLE NEWYDD • HER NEWYDD**

Mae aelodau'r eglwysi uchod yn awyddus i estyn galwad i

**WEINIDOG AMSER LLAWN**

i'w gwasanaethu a'u harwain i'r dyfodol gyda'r nod o hyrwyddo'r dystiolaeth Gristnogol yn eu bro.

Paratowyd pecyn gwybodaeth cynhwysfawr ar gyfer darpar ymgeiswyr.
Cysyllter drwy e-bost neu alwad ffôn er mwyn derbyn manylion.

E-bost: eirianmevans@gmail.com
Ffôn: 01970 832473

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Newyddion o Geredigion

### Eglwys Pantycrugiau, Plwmp, gorllewin Ceredigion

Cynhaliwyd gwasanaeth Mudiad Chwiorydd De Ceredigion nos Fercher 19 Mawrth yn festri capel Pantycrugiau. Llywydd y noson oedd cadeirydd Mudiad y Chwiorydd, y Parchedig Carys Ann, cymerwyd at y defosiwn gan Bethan Rees, Catrin Evans organyddes, Jano Evans (ar ran ei mam-gu, Elin Owens) a'r Parchedig Carys Ann. Cafwyd cymorth ymarferol gan Bill Moss, Alan a Gwenda Rees, ac Elin Owens.

### Anerchiad

Siaradwraig wadd y noson oedd Bronwen Morgan, Bwlch Llan, cyn gyfreithwraig a chyn brif weithredwr Cyngor Sir Ceredigion. Cafwyd anerchiad yn ein tywys at wragedd yn y Beibl a'r hyn mae gwragedd wedi ei gyflawni ar hyd y canrifoedd. Gwerthfawrogir gwaith ysgrifennydd y Mudiad Chwiorydd Rhian Evans a thrysorydd y mudiad, Ennis Davies. Diolch am bresenoldeb y pedwar gŵr bonheddig, ynghyd â nifer o wragedd o eglwysi Ceredigion. Yn sicr cafwyd bendith trwy y cyfarfod a'r croeso twymgalon at y lluniaeth oedd ar ddiwedd y noson.

### Bryngwenith

Cynhaliwyd gwasanaeth Dydd Gweddi y Byd yn ystod mis Mawrth yn festri capel Bryngwenith, ger Castellnewydd Emlyn. Daeth cynrychiolaeth o eglwys Hawen, Rhydlewis; eglwys Glynarthen a Bryngwenith ynghyd i ddilyn rhaglen Dydd Gweddi y Byd. Hyfryd oedd ymuno yn y gwasanaeth a drefnwyd gan chwiorydd Ynysoedd y Cook Islands.





## YR OEDI CYN CYNNAL ANGLADDAU – *parhad*



ymwybodol y gall yr oedi hwn fod o ganlyniad i faterion lluosog ar draws y broses marwolaethau. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw hyn yn dderbyniol wrth i ni barhau i weithio tuag at welliant ac amseroedd llwybr byrrach.'

Ychwanegodd yr Athro Kloer bod y Bwrdd Iechyd yn gweithio tuag at sefydlu gwasanaeth ôl-ofal profedigaeth a marwolaeth integredig i ddarparu cymorth i deuluoedd mewn profedigaeth ac i leihau'r amser sy'n cael ei gymryd i gyhoeddi'r Tystysgrifau Meddygol Achos Marwolaeth.

[*Trwy godi'r mater yma yn enw 2,400 o Gristnogion Annibynnol yng ngorllewin Caerfyrddin fe gafodd y cyfundeb ymateb ar y lefel uchaf. Mae'r rhan fwyaf o'n cyfundebau yn dal i fod yn sefydliadau sylweddol sy'n cynrychioli cannoedd lawer o bobl. Ydym ni'n defnyddio'u llais yn llawn i godi materion o bwys i'n bobl ac i gymdeithas?*]

### Capel y Wig, Blaencelyn

Yn y llun gweler Parchedig Carys Ann yn cyflwyno tusw o flodau i Janet Jones gynt Llainwen, Pontgarreg bellach Heol Awst, Caerfyrddin sef Llywydd Anrhydeddus noson Cawl a Chân ar nos Wener 14 Mawrth a drefnwyd gan aelodau Capel y Wig ar gyfer cynorthwyo at apêl yr adeiladu. Diolch i bawb am bob cefnogaeth.

### 'Allan mae ei Deyrnas'

Allan yn y gymuned aeth aelodau Capel y Wig, Llangrannog; Pisgah, Talgarreg a Phantycrugiau, Plwmp i gynnal gwasanaeth dan arweiniad a llywyddiaeth eu gweinidog y Parchedig Carys Ann. Dyma beth oedd Sul bendithiol a gwasanaeth diffuant a chanu mawl i Dduw fu'n fodd i godi calon pawb.

**Carys Ann**

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*